
HM Government
Llywodraeth EM

# Proffiliau Llwyddiant

## Geiriadur Cryfderau'r Gwasanaeth Sifil



# Beth yw Proffiliau Llwyddiant?

## Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn cael ei gyflwyno i ddenu a chadw pobl sydd â thalent a phrofiad o sectorau amrywiol ac o bob ran o fywyd, yn unol ag ymrwymiad Cynllun Gweithlu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn symud recriwtio i ffwrdd o ddefnyddio system asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn unig. Mae'n cyflwyno fframwaith fwy hyblyg sy'n asesu ymgeiswyr yn erbyn amrywiaeth o elfennau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol. Bydd hwn yn rhoi'r cyfle gorau i ddod o hyd i'r person gorau ar gyfer y swydd, cynyddu perfformiad a gwella amrywiaeth a chynhwysiad.

Yr elfennau y gellir eu hasesu er mwyn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yw:

- **Ymddygiadau** - y gweithredoedd a gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud sy'n arwain at berfformiad effeithiol mewn swydd.
- **Cryfderau** - y pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.
- **Gallu** - y dawn neu'r potensial i berfformio i'r safon gofynnol.
- **Profiad -** y wybodaeth neu'r feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc ag enillir trwy ymglymiad neu amlygiad iddo.
- **Technegol** - yr arddangosiad o sgiliau, gwybodaeth neu gymwysterau proffesiynol.

Nid yw pob elfen yn berthnasol i bob rôl felly dylai cynnwys y Proffil Llwyddiant fod yn wahanol ar gyfer gwahanol mathau o swyddi er mwyn gwella'r cyfle o gael y person gorau ar gyfer y rôl

# Cryfderau'r Gwasanaeth Sifil

## Cryfderau yw'r pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.

Mae Geiriadur Cryfderau'r Gwasanaeth Sifil yn set o gryfderau diffiniedig sy'n berthnasol i'r diwylliant a'r math o waith rydym yn eu gwneud. Ni ddiffinnir Cryfderau'r Gwasanaeth Sifil yn ôl gradd.

# Pam rydym yn asesu cryfderau

## Wrth edrych ar eich cryfderau rydym am ddod i wybod p'un a fydd chi a rôl y swydd yn paru â'ch gilydd.

Byddwn yn edrych ar beth rydych yn hoffi ei gwneud a beth rydych yn ei wneud yn dda ac yn rheolaidd.

Trwy sicrhau bod y rôl yn iawn i chi, mae'n fwy tebygol y byddwch yn mwynhau'r swydd ac yn perfformio'n dda.

# Sut rydym yn asesu cryfderau

## Mae yna dair elfen sy'n pennu p'un ai yw rhywbeth yn gryfder:

- **Perfformiad:** gallwch berfformio gweiddgaredd/ymddygiad i lefel uchel o allu neu hyfedredd.
- **Ymgysylltiad:** rydych yn teimlo'n ysgogol, yn brwdfrydig ac yn awdurdodedig wrth wneud y gweithgaredd.
- **Defnydd**: rydych yn gwneud y gweithgaredd yn rheolaidd ac mor reolaidd â phosibl.

Gellir asesu cryfderau mewn sawl ffordd, fel:

- Cyfweliadau
- Cyfweliadau wedi'u recordio ar fideo
- Prawf cryfderau sefyllfaol pwrpasol
- Asesiad efelychu
- Prawf personoliaeth.

Os ydych yn mynychu cyfweliad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi i ddeall p'un ai oes gennych gryfderau sy'n berthnasol i' rôl y swydd. Mae'n bwysig cofio nad oes unrhyw atebion cywir neu anghywir i'r cwestiynnau hyn. Peidiwch ag ymarfer eich atebion gan rydym yn chwilio am eich ymateb dechreuol.  Bydd y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y rôl yn cael eu hegluro yn y swydd ddisgrifiad. Y ffordd orau i baratoi yw i fyfyrio ar beth rydych yn credu yw eich cryfderau personol ac eich ffordd orau o weithio.

Efallai asesir eich cryfderau ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r Proffil Llwyddiant er mwyn cael darlun mwy crwn o'ch addasrwydd i'r swydd. Bydd y swydd ddisgrifiad yn amlinellu'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer y rôl a'r dulliau dethol fydd yn cael eu defnyddio.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn gweithlu amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn waeth beth yw'r math o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'n broses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras neu braille, caniatáu mwy o amser ar gyfer prawf neu gyfweliad neu ddarparu cymorth mewn canolfan asesu.

# Diffiniadau cryfderau

| Cryfder | Diffiniad |
|---|---|
| **Addasadwy** | Gallwch addasu i amrywiadau yn y gwaith neu'r amgylchedd ac nid yw eich effeithiolrwydd yn cael ei effeithio gan newid. Rydych yn hyblyg ac amryddawn ac yn gweithredu fel adfocad dros newid. |
| **Dadansoddol** | Rydych yn chwilio am ac yn dadansoddi gwybodaeth er mwyn hysbysu penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. |
| **Dilys** | Rydych yn hunanymwybodol ac yn ffyddlon i chi eich hun ym mhob sefyllfa, hyd yn oed pan dan bwysau. |
| **Catalydd** | Rydych yn hunanysgogol wrth weithredu a chyflawni nod. Rydych yn hyderus i ddefnyddio eich menter eich hun er mwyn symud gweithredoedd yn eu blaen. |
| **Heriwr** | Gallwch ddod â persbectif ffres i ba bynnag sefyllfa neu gyd-testun. Rydych yn gweld barnau pobl eraill ac yn gallu gwerthfawrogi y bod llawer o onglau gwahanol i'w hystyried. |
| **Asiant Newid** | Rydych yn gadarnhaol ac yn ysbrydoledig wrth awarin a chefnogi eraill trwy newid. |
| **Hyderus** | Rydych yn cymryd reolaeth o sefyllfaoedd, pobl a phenderfyniadau. Rydych yn cyfathrebu'n hyderus ac yn rhoi cyfarwyddyd. |
| **Dewr** | Rydych yn newidiwr sy'n ceisio ffyrdd newydd ac yn gwithio eich hun i weithio y tu allan i'ch cylchfa cyfforddus. |
| **Pendant** | Rydych yn defnyddio eich barn ac yn cymryd modd a ystyrir i sefyllfaeodd a thasgau wrth wneud penderfyniadau. |
| **Disgybledig** | Rydych yn dilyn prosesau, gan weithredu'n gadarn o fewn y safonau, rheolau a chyfarwyddiadau a bennwyd. |
| **Effeithlon** | Rydych yn trawsnewid adnoddau i mewn i ganlyniadau yn y ffordd mwyaf effeithlon a chynnil. |
| **Emosiynol Deallus** | Rydych yn tynnu mewnwelediad o'ch emosiynau chi eich hun ag eraill er mwyn arddangos empathi. |

# Diffiniadau cryfderau

| Cryfder | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Galluogwr** | Rydych yn gweld potensial ym mhawb ac yn eu hannog i ddysgu, symud ymlaen a datblygu. |
| **Eglurwr** | Rydych yn cyfathrebu ystyriaethau a syniadau ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rydych yn symleiddo cymhlethion ac yn addasu cyfathrebu fel y gallai eraill eich deall. |
| **Ffocyswr** | Rydych yn ymdrechu dros canlyniadau o ansawdd a rhagoriaeth ym mhopeth a wnewch. |
| **Cynhwysol** | Rydych yn adnabod pawb fel unigolyn, gan dderbyn pobl am bwy ydynt ac yn trin pawb yn deg. Rydych yn annog yn weithredol ac yn cynnig cyfleoedd i eraill rannu syniadau a chyfraniadau. |
| **Dylanwadwr** | Rydych yn dylanwadu ar eraill, rydych yn ynganu'r rhesymwaith er mwyn ennill eu cytundeb. |
| **Gwellhäwr** | Rydych yn chwlilio am ffyrdd gwell o wneud pethau ac yn mwynhau meddwl am syniadau newydd a gwreiddiol. |
| **Dysgwr** | Rydych yn holgar, rydych yn chwilio am wybodaeth newydd ac yn chwilio am ffyrdd newydd i ddatblygu chi eich hun. |
| **Cyfryngwr** | Rydych yn darparu sefydlogrwydd a chydlyniad o fewn timau, gan ddod o hyd i dir cyffredin a phwrpas. Rydych yn mwynhau gweithio ar y cyd ag eraill er mwyn gyrru ymlaen nod a rennir. |
| **Cenhedwr** | Rydych yn erlid pethau sy'n rhoi synnwyr o ystyr a phwrpas i chi, wrth weithio tuag at nod hirdymor. |
| **Ysgogwr** | Rydych yn hunanysgogol iawn ac yn ysbrydoli eraill i symud ymlaen a gwneud i bethau ddigwydd. |
| **Negodwr** | Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn mwynhau ceisio cael yr holl bartïon i ddod i gytundeb. |
| **Rhwydweithiwr** | Rydych yn creu a chynnal yn weithredol, perthnasau gwaith cadarnhaol, proffesiynol a ffyddlon gydag amrywiaeth eang o bobl o fewn ac y tu allan i'r sefydliad. Rydych yn nodi cysylltiadau ac yn ymestyn allan i ddod a phobl at ei gilydd. |

# Diffiniadau cryfderau

| Cryfder | Diffiniad |
|---|---|
| **Trefnwr** | Rydych yn gwneud cynlluniau ac yn paratoi'n dda. Rydych yn ceisio uchafu amser a chynhyrchiant. |
| **Manwl Gywir** | Rydych yn ffocysu ar fanylion ac rydych yn sicrhau bod popeth yn gywir a heb gamgymeriadau. |
| **Ataliwr** | Rydych yn meddwl ymlaen llaw i ragweld, adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw risgau neu broblemau cyn iddynt ddigwydd. |
| **Datryswr Problemau** | Rydych yn cymryd agewdd gadarnhaol i ddatrys problemau ac i ddod o hyd i ffyrdd i nodi datrysiadau addas. |
| **Adeiladwr Perthnasau** | Rydych yn sefydlu'n gyflym parch a ffydd cilyddol, gan feithrin perthnasau hirdymor ag eraill. |
| **Hydwyth** | Mae gennych hunanfeddiant mewnol, yn adfer yn gyflym o anawsterau ac yn dysgu ganddynt. |
| **Cyfrifol** | Rydych yn cymryd perchenogaeth am eich penderfyniadau ac yn dal eich hunan yn atebol am beth rydych wedi addo i'w gyflawni. |
| **Wedi Ffocysu ar Wasanaeth** | Rydych yn chwilio am ffyrdd i wasanaethu cwsmeriaid gan rhoi eu hanghenion wrth wraidd popeth a wnewch. |
| **Strategol** | Rydych yn edrych ar y darlun fawr ac yn ystyried y ffactorau ehangach a'r goblygiadau hir dymor o benderfyniadau. |
| **Arweinwr Tîm** | Rydych yn hyderus wrth arwain tîm ac yn gallu rheoli dynameg tîm yn effeithiol i yrru ymlaen nod a rennir. Rydych yn ystyried anghenion unigol pawb a chreu ysbryd tîm dilys. |
| **Chwaraewr Tîm** | Rydych yn gweithio'n dda fel rhan o dîm ac yn ymdrechu i sicrhau fod y tîm yn tynnu at ei gilydd ac yn effeithiol. |
| **Gweledwr** | Rydych yn creu a rannu gweledigaeth clir o'r dyfodol. |

# Cryfderau wedi'u mapio i Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil

Fe mapiwyd y cryfderau i'r Ymddygiad(au)'r Gwasanaeth Sifil fwyaf perthnasol, ond gellir asesu unrhyw gryfder os yw'n addas i'r swydd.

## Gweld y Darlun Cyflawn

- Heriwr
- Cenhedwr
- Strategol
- Gweledwr

## Newid a Gwella

- Addasadwy
- Dewr
- Asiant Newid
- Gwellhäwr
- Datryswr Problemau
- Hydwyth

## Gwneud Penderfyniadau Effeithiol

- Dadansoddol
- Pendant
- Ataliwr
- Datryswr Problemau

## Arweinyddiaeth

- Hyderus
- Asiant Newid
- Cynhwysol
- Ysgogwr
- Arweiniwr Tîm
- Gweledwr

## Cyfathrebu a Dylanwadu

- Dilys
- Emosiynol Deallus
- Eglurwr
- Cynhwysol
- Dylanwadwr

## Gweithio ar y Cyd

- Heriwr
- Emosiynol Deallus
- Cynhwysol
- Negodwr
- Rhwydweithiwr
- Adeiladwr Perthnasau
- Chwaraewr Tîm
- Cyfryngwr

## Datblygu Eich Hun ac Eraill

- Galluogwr
- Eglurwr
- Cynhwysol
- Dysgwr

## Rheoli Gwasanaeth Safonol

- Disgybledig
- Effeithlon
- Ffocyswr
- Trefnwr
- Manwl Gywir
- Ataliwr
- Wedi Ffocysu ar Wasanaeth

## Cyflawni'n Brydlon

- Addasadwy
- Disgybledig
- Catalydd
- Ffocyswr
- Trefnwr
- Hydwyth
- Cyfrifol